

## CLWB MYNYDDA CYMRU

### Cyfarfod Blynyddol 2008.

### Canolfan Cywain, Y Bala, 6:00 yh, ddydd Sadwrn 15 Tachwedd 2008.

#### Cofnodion

1. Croesawodd y Cadeirydd y 42 aelod a oedd yn bresennol, gyda 5 yn ymddiheuro
2. Derbyniwyd Cofnodion 17 Tachwedd 2007.
3. Diolchodd y Cadeirydd i'r sawl a oedd wedi arwain y ffordd i ddatblygu mynydda trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn a fu, gan ddechrau gyda'r swyddogion a'r Pwyllgor, yn arbennig wrth ddatblygu'r ochr ddringo. Roedd y gwaith gyda'r Cyngor Mynydda Prydain wedi llwyddo, gydag arian i gyfieithu "*Hillwalking*" i'r Gymraeg. Dymunodd y gorau i Iolyn a diolchodd iddo am ei waith dros Y Clwb.
4. Adroddodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth. Roedd y cylchlythyr aelodaeth deirgwaith y flwyddyn yn gweithio o hyd.
5. Adroddodd yr Ysgrifennydd Gweithgareddau ynghlyn a'r nifer o deithiau trwy'r flwyddyn - yn y Gogledd (20), canolbarth a'r De (9) a thu allan i Gymru - ar y penwythnosau a chanol wythnos (14) a dringo / sgramblo (6), gyda 4 ymweliad preswyl. Diolchodd i'r brif blygwr y rhaglen, "Charli" Jones.
6. Adroddodd Ysgrifennydd y Wefan fod yr ail-strwythuro wedi gwella'r safle, Roedd angen datblygu'r Mynyddiadur. Cytunwyd gyda'r syniad datblygu defnydd o "Facebook" ar gyfer fforwm trafod.
7. Adroddiad y Trysorydd. Roedd 270 o aelodau a chynnydd yn y swm wrth gefn o £1,700. Oherwydd hyn nid oedd argymhelliad codi'r tal aelodaeth i gwrdd â chynnydd yn y premiwm insiwrans. Datganodd y Trysorydd na fyddai yn sefyll eto ymhen y flwyddyn.
8. Etholwyd y canlynol fel swyddogion 2008/09
  - Cadeirydd – Morfudd Thomas
  - Is-gadeirydd – Arwel Roberts
  - Trysorydd – John Arthur Jones
  - Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth – Clive James
  - Ysgrifennydd Gweithgareddau - Maldwyn Peris Roberts
  - Ysgrifennydd y Wefan – Iolo ap GwynnTalwyd teyrnged i'r diweddar Rodney Hughes, cyn Cadeirydd y Clwb.
9. Etholwyd y canlynol i'r Pwyllgor: Rhys Dafis, Llew ap Gwent, Alwen Williams, Gareth Roberts, Gwyn Williams ( Llanrwst), Gwyn Williams ( Chwilog ). Anita Daimond.
10. Penodwyd Gareth P Evans, Llanrwst fel Archwilydd
11. Nid oedd unrhyw gynigion ffurfiol i'w trafod.
12. Yn y drafodaeth anffurfiol, argymhellodd aelodau i'r Pwyllgor ystyried:
  - Presenoldeb yn Eisteddfod Y Bala, 2008, ar y cyd gyda mudiadau mynydda eraill
  - Prynu cyfrifiadur a thaflunydd
  - Cyfrannau at ddatblygu mynydda yn y Wladfa Gymreig
  - Datblygu aelodaeth gan bobl ifanc, gan gynnwys dynodi swyddog lles pobl ifanc.Daeth y cyfarfod i ben am 7:00. Daeth pawb ymlaen at y Cinio Blynyddol a sgwrs ddiddorol iawn gan Bethan Gwanas.

